# Safonau’r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. Mae Prifysgol Aberystwyth yn ddarostyngedig i Safonau’r Gymraeg o dan Adran 47 y Mesur, sy’n wedi disodli ein Cynllun Iaith blaenorol.

Mae Safonau’r Gymraeg yn egluro sut y mae disgwyl i’r Brifysgol ddarparu gwasanaethau penodol yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Mae’r Safonau y mae’n ofynnol i ni gydymffurfio â nhw wedi’u rhannu’n bedwar categori:

- Cyflenwi Gwasanaethau (ar gyfer y cyhoedd a myfyrwyr)
- Llunio Polisi
- Gweithredu (ar gyfer staff)
- Cadw Cofnodion

Mae’r ddogfen hon yn nodi ein trefniadau o ran:

- cydymffurfio â phob safon sydd yn ein Hysbysiad Cydymffurfio,
- hybu’r gwasanaethau yr ydym yn ei gynnig yn unol â’r safonau hynny, a
- hwyluso defnyddio’r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae cyfeiriadau at iaith ddewisol yn y polisi hwn yn ymwneud â’r Gymraeg neu’r Saesneg.

## Ein gweledigaeth i’r Gymraeg

- Gweithio tuag at sefydlu ein hunain fel sefydliad naturiol ddwyieithog yn ein holl weithleoedd, wrth ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd, wrth weithio gyda phartneriaid ac yn ein gweinyddiaeth fewnol.
- Annog ein gweithlu i ymfalchïo yn y Gymraeg a’n hymrwymiad i sefydlu Prifysgol Aberystwyth fel sefydliad dwyieithog.
- Cynyddu’n raddol gyfran y staff ar bob lefel sydd â’r gallu a’r hyder i siarad ac ysgrifennu’r Gymraeg i gydymffurfio â gofynion y Safonau.

## Hyrwyddo ein Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i hybu a hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg. Rydym yn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy, yn glywadwy a'n gynnig rhagweithiol wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau. Er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg rydym yn:

- Rhoi negeseuon rheolaidd yn y bwletin staff a myfyrwyr.
- Cynnig deunydd Iaith Gwaith / Dysgwyr yn rhagweithiol i'n staff a'n myfyrwyr.
- Yn cynnal sesiynau, digwyddiadau ac ymgyrchoedd i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.
- Yn darparu gwybodaeth ar wefan y Brifysgol.
- Darparu gwybodaeth yn llawlyfr y myfyrwyr.
- Darparu hyfforddiant i staff ynglŷn â'r Gymraeg a'i ddefnydd yn y Brifysgol
- Rhoi cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Darparu cyfleoedd i staff a myfyrwyr ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg.
- Cynnig adnodd 'MailTip' i alluogi staff adnabod cyd siaradwyr/dysgwyr Cymraeg.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar weithredu'r Safonau yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgorau canlynol - Grŵp Gweithredol y Gymraeg, y Weithrediaeth, Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant, ac i Gyngor y Brifysgol. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn cadw cofnod cyfredol ac addas o wybodaeth yn ymwneud â gweithrediad y Safonau, gan ein galluogi i fonitro ac adrodd ar y Safonau.

| Rhif Safon | Dosbarth o Safon | Safon (RHAN UN) | Sut mae PA yn bwriadu cydymffurfio â'r Safon |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cyflenwi Gwasanaethau (Y cyhoedd a myfyrwyr)** [1]<br><br>**Gohebiaeth ysgrifenedig (papur ac electronig)** | Os byddwch yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | Rydym yn croesawu llythyrau a gohebiaeth electronig trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg os oes angen ymateb. Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un fath ag ar gyfer gohebiaeth Saesneg. |
| 2 | | Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi- (a) cadw cofnod o ddymuniad A, (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.<br>Rhaid cydymffurfio â Safon 2 mewn perthynas â'r canlynol: | Wrth i fyfyriwr/wraig gofrestru byddwn yn gofyn iddo/i ym mha iaith mae'n dymuno gohebu â ni. Pan fydd y dewis iaith yn hysbys, bydd hyn yn cael ei gofnodi. Bydd pob gohebiaeth o hynny ymlaen yn cael ei hanfon at y myfyriwr/wraig yn ei iaith ddewisol. |

[1] Noder bod y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth ddim ond yn gymwys i'r graddau y mae'r gweithgaredd a gyflawnir neu'r gwasanaeth a ddarperir yn ymwneud â'r canlynol – a) derbyn a dethol myfyrwyr; b) gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff; c) lles myfyrwyr; ch) cwynion; d) achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr; dd) gwasanaeth gyrfaoedd; e) mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu; f) seremonïau graddio a gwobrwyo; ff) asesu neu arholi myfyriwr; g) dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol; ng) darlithoedd cyhoeddus; h) cyfleoedd dysgu; i) dyrannu tiwtor personol; j) llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau; l) galwadau i brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell cymorth, rhifau canolfan alwadau a systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio; ll) arwyddion ar adeiladau'r corff. (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif.6) 2017 – Rhan 3 Dehongli'r Safonau, paragraff 31, t. 43-44).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | i) myfyrwyr cofrestredig. | |
| 3 | | Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os- (a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny; (b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.<br>Rhaid cydymffurfio â Safon 3 mewn perthynas â'r canlynol:<br>i) myfyrwyr cofrestredig | Wrth anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau fyfyriwr cofrestredig sy'n aelodau o'r un aelwyd , bydd yr ohebiaeth yn cael ei hanfon at bob myfyriwr/wraig yn yr iaith ddewisol a gofnodwyd pan gofrestrodd y myfyrwyr. |
| 4 | | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | Bydd gohebiaeth a anfonir i sawl unigolyn yn cael ei hanfon yn ddwyieithog heblaw bod dewis iaith pob derbynnydd yn hysbys. Ein harfer fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd. |
| 5 | | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi | Byddwn yn gohebu'n ddwyieithog pan nad ydym yn siŵr am ddewis iaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw. | unigolyn. |
| 6 | | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth yn cael eu llofnodi. Mae ein deunydd ysgrifennu, gan gynnwys teitlau a chyfeiriadau ar bapurau ac e-bost swyddogol, yn ddwyieithog. |
| 7 | | Rhaid ichi ddatgan- (a) mewn gohebiaeth (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | Bydd gohebiaeth ysgrifenedig swyddogol yr ydym yn ei chyflwyno yn cynnwys y llinellau isod: *Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.* |
| **Bydd Canllaw Staff yn cael ei gyhoeddi ar wefan Canolfan Gwasanaethau Gymraeg y Brifysgol i helpu a chynorthwyo staff i ymdrin â gohebiaeth Gymraeg.** | | | |
| 8 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Cyfathrebu dros y ffôn** | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | Rydym yn croesawu ymholiadau ffôn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yr holl alwadau a dderbynnir gan ein prif rifau ffôn a'n rhifau llinellau cymorth yn cael eu hateb gyda chyfarchiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dwyieithog yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg. |
| 9 | | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. | Pan fydd person yn cysylltu â ni ar ein prif rifau ffôn a'n rhifau llinell gymorth, byddwn yn rhoi gwybod iddynt fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Ceir canllaw staff sydd yn egluro sut i wneud hyn. |
| 11 | | Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny- (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw | Wrth gysylltu â ni ar ein prif rifau ffôn ac ar ein llinellau cymorth os bydd y galwr yn siarad Cymraeg, bydd ein staff yn ateb yn Gymraeg, neu os na fydd yn gallu gwneud hynny, bydd yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg ar unwaith. Os na fydd y siaradwr Cymraeg yn medru delio'n gyfan gwbl ag ymholiad y galwr am fod angen gwasanaeth ar bwnc penodol, bryd hynny fe drosglwyddir yr alwad i un sydd yn medru darparu'r gwasanaeth penodol hwnnw. |
| 12 | | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Bydd rhifau ffôn y Brifysgol yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| 13 | | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw | Mae prif rifau ffôn y Brifysgol sy'n cynnig gwasanaeth yn Saesneg hefyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar yr un rhif ffôn. |
| 14 | | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaeth canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | Wrth gyhoeddi ein prif rif ffôn ar ein gwefan nodwn ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. |
| 15 | | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | Mae'r dangosyddion perfformiad yr un fath ar gyfer galwadau Cymraeg a Saesneg. |
| 16 | | Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | Mae ein prif rif ffôn (y switsfwrdd) yn gweithredu gwasanaeth ateb dwyieithog wedi'i recordio gyda'r neges Gymraeg yn dod cyn y Saesneg, lle gall galwyr adael neges yn eu hiaith ddewisol. |
| 17 | | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | Byddwn yn rhoi gwybod i alwyr ffôn pryd fydd y gwasanaeth Cymraeg ar gael os nad ydyw ar gael ar y pryd. |
| | | Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau | Wrth gysylltu â ni ar ein rhifau ffôn uniongyrchol os bydd y galwr yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19 | | llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg- (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | dymuno siarad Cymraeg, bydd ein staff yn delio â'r alwad yn Gymraeg neu os na fydd yn gallu gwneud hynny, bydd yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg ar unwaith. Os na fydd y siaradwr Cymraeg yn medru delio'n llwyr ag ymholiad y galwr am fod angen gwasanaeth ar bwnc penodol, bryd hynny fe drosglwyddir yr alwad i un sydd yn medru darparu'r gwasanaeth penodol hwnnw |
| 20 | | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person. | Bydd yr holl alwadau yr ydym yn eu derbyn yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog a roddir yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg. |
| 21 | | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.<br><br>Rhaid i chi gydymffurfio â Safon 21 ymhob amgylchiad ac eithrio:<br>i) lle bo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a | Wrth gysylltu ag unigolyn dros y ffôn am y tro cyntaf, gofynnir i'r unigolyn trwy gyfrwng pa iaith yr hoffai dderbyn galwadau gennym. Unwaith y bydd dewis iaith yr unigolyn yn hysbys, bydd hyn yn cael ei gofnodi. Bydd galwadau o hynny ymlaen trwy gyfrwng dewis iaith yr unigolyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ii) lle nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw | |
| **Bydd Canllaw Staff yn cael ei gyhoeddi ar wefan Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol i helpu a chynorthwyo staff i ymdrin â galwadau ffôn.** | | | |
| 24[2] | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Cyfarfodydd** | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw. | Pan fyddwn yn gwahodd un person yn unig i gyfarfod byddwn yn gofyn i'r person hwnnw a fydd yn dymuno siarad yn Gymraeg yn y cyfarfod gan egluro efallai y bydd angen defnyddio cyfieithu ar y pryd i alluogi hyn. |
| 24A | | Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu) | Os na fydd modd cynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd gydag un person yn unig pan fydd y person hwnnw wedi nodi eu bod yn dymuno defnyddio Cymraeg yn y cyfarfod. |
| | | Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, ac<br>(a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chŵyn am A neu | Ar gyfer cyfarfod sy'n ymwneud â chwynion neu achosion disgyblu byddwn yn gofyn i'r person y |

[2] Gweler troednodyn 1.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26 | | gŵyn a wnaed gan A;<br>(b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu<br>(c) mai diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A,<br>rhaid i chi –<br>(i) gofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a<br>(ii) hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. | gwnaethpwyd y gŵyn yn ei erbyn neu sy'n cael ei ddisgyblu a yw yn dymuno defnyddio Cymraeg yn y cyfarfod. Yn yr un modd pan fydd cyfarfod am gymorth i fyfyriwr yn cael ei drefnu byddwn yn gofyn i'r myfyriwr hwnnw a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.<br><br>Byddwn yn egluro efallai y bydd angen defnyddio cyfieithydd ar y pryd, a fydd yn cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg, i alluogi hyn. |
| 26A | | Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod<br>(a) os<br>(i) yw'r cyfarfod yn ymwneud â chŵyn am yr unigolyn ("A") a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed gan A;<br>(ii) yw'r cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu<br>(iii) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A; a<br>(b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;<br>os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. | Byddwn, yn ôl yr angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yn ymwneud â chwynion ac achosion disgyblu os yw'r person y gwnaethpwyd y gŵyn yn ei erbyn neu os yw'r person sy'n cael ei ddisgyblu am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac wedi ein hysbysu o flaenllaw.<br><br>Mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â darparu cymorth i fyfyrwyr, os yw'r myfyriwr y mae'r cymorth ar ei gyfer yn dymuno siarad Cymraeg byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27[3] | | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | Bydd pob gwahoddiad i gyfarfod yn cael ei anfon yn ddwyieithog gan ofyn i bob unigolyn ein hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. |
| 27A | | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | Byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfodydd lle mae o leiaf 10% o'r rhai a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. |
| 27D | | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu). | Mewn unrhyw gyfarfod lle mae pawb a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg (os nad ydym yn gallu cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth cyfieithydd ar y pryd). |
| 29 | | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, ac<br>(a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed am un neu ragor o'r unigolion hynny;<br>(b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; neu<br>(c) mai diben y cyfarfod hwnnw yw darparu cymorth myfyrwyr i un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; | Ar gyfer cyfarfod sy'n ymwneud â<br>a) cwynion<br>b) achosion disgyblu<br>c) darparu cymorth i fyfyriwr/fyfyrwyr<br><br>byddwn yn gofyn i<br>i) y rhai a wnaeth y gŵyn,<br>ii) y rhai y gwnaethpwyd y gŵyn yn eu herbyn<br>iii) y rhai sy'n cael eu disgyblu |

[3] Gweler troednodyn 1.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhaid ichi—<br>(i) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; a<br>(ii) hysbysu'r unigolyn hwnnw (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. | iv) y myfyrwyr yn y cyfarfod sy'n destun y cymorth<br>a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.<br><br>Byddwn yn egluro efallai y bydd angen defnyddio cyfieithydd ar y pryd, a fydd yn cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg, i alluogi hyn. |
| 29A | | Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod—<br>(a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod;<br>(b) os—<br>(i) yw'r cyfarfod yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed am un neu ragor o'r unigolion hynny;<br>(ii) yw'r cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; neu<br>(iii) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; ac<br>(c) os yw o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. | Byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a ddisgrifir yn Safon 29 a lle mae o leiaf un o'r unigolion perthnasol wedi gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Bydd y gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg. Pan na fydd angen cymorth y gwasanaeth cyfieithu byddwn yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 30 | | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored—<br>(a) i'r cyhoedd, neu<br>(b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | Wrth drefnu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ac i fyfyrwyr o fewn carfan benodol, bydd yr holl hysbysebion a gwahoddiadau yn ddwyieithog, gan nodi y croesewir defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y cyfarfod.<br>Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus agored. |
| 31 | | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored—<br>(a) i'r cyhoedd, neu<br>(b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,<br>rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | Bydd pob gwahoddiad i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ac i fyfyrwyr sydd o fewn carfan benodol yn cael eu hanfon yn ddwyieithog. |
| 32 | | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored—<br>(a) i'r cyhoedd, neu<br>(b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,<br>rhaid ichi—<br>(i) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | Wrth wahodd pobl i siarad mewn cyfarfod yr ydym yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, byddwn yn gofyn i bob siaradwr pa iaith fyddai orau ganddynt ei defnyddio yn y cyfarfod. Os bydd siaradwr yn ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai fod pawb sy'n mynychu wedi ein hysbysu o'u dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg). |
| | | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored—<br>(a) i'r cyhoedd, neu<br>(b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,<br>rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd | Yn ein holl gyfarfodydd a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod gyda |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33 | | o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—<br>(i) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. | chyfarchiad dwyieithog, yn hysbysu'r rhai sy'n bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac yn tynnu sylw at y ffaith fod y gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael. |
| 34 | | Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored—<br>(a) i'r cyhoedd, neu<br>(b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,<br>rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | Bydd ein holl ddeunyddiau ysgrifenedig a arddangosir mewn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd neu fyfyrwyr o fewn carfan benodol yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg, neu i'r chwith iddi. |
| 35 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Digwyddiadau Cyhoeddus** | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | Wrth drefnu digwyddiad cyhoeddus neu weithio mewn partneriaeth ag eraill i drefnu digwyddiad cyhoeddus, byddwn yn ceisio hybu a rhannu arfer dwyieithog da. Bydd ein cyfraniad yn y bartneriaeth yn cydymffurfio â gofynion y Safonau fel yr amlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. |
| 36[4] | | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i | Wrth drefnu digwyddiad cyhoeddus, neu weithio mewn partneriaeth ag eraill i drefnu digwyddiadau cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod ein cyfraniad yn cydymffurfio â gofynion y Safonau fel yr |

[4] Nid yw Safon 36 (digwyddiadau cyhoeddus) yn gymwys i – a) perfformiadau o gerddoriaeth; b) cynyrchiadau artistig neu ddramatig ; c) seminarau neu gyflwyniadau llafar sy'n ymwneud â'r perfformiad neu'r cynhyrchiad; ch) unrhyw recordiad o'r perfformiad, y cynhyrchiad, y seminar neu'r cyflwyniad llafar. (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 – Rhan 3 Dehongli'r Safonau, paragraff 42, t.46-47).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo). | amlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer unrhyw wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd a myfyrwyr. |
| 37 | | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Bydd ein holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog; bydd y Gymraeg yn ymddangos ar y chwith neu uwchben y Saesneg neu yr un mor flaenllaw. Os bydd rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn datgan bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall hefyd |
| 38 | | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Bydd yr holl ddeunydd yr ydym yn ei arddangos yn gyhoeddus yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y Saesneg neu yr un mor flaenllaw. Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn datgan bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall hefyd. |
| 40 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Darlithoedd Cyhoeddus** | Os byddwch yn trefnu darlith gyhoeddus, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael at ddiben unrhyw gwestiynau a ofynnir gan y gynulleidfa yn ystod y ddarlith neu ar ôl y ddarlith— | Wrth drefnu darlith gyhoeddus byddwn yn ystyried pwnc a chynulleidfa debygol y ddarlith o flaen llaw ac os yw hi'n debygol y bydd galw am ddefnyddio'r Gymraeg e.e. wrth ofyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (a) pan fo pwnc y ddarlith gyhoeddus yn awgrymu y dylid darparu gwasanaeth o'r fath, neu<br>(b) pan fo'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliad yn awgrymu y dylid darparu gwasanaeth o'r fath. | cwestiynau ar y diwedd, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i alluogi hyn. |
| 40A | | Os byddwch yn trefnu darlith gyhoeddus ac y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg | Wrth ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn darlith gyhoeddus byddwn yn hysbysu pawb sy'n bresennol bod y gwasanaeth ar gael a bod modd a chroeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. |
| 41 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Seremonïau Graddio** | Os byddwch yn trefnu seremoni raddio neu wobrwyo, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â deunydd neu arwyddion a arddangosir gennych yn y lleoliad ac mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a ddarperir am drefn y digwyddiadau yn y seremoni (pa un ai ar ffurf electronig, ysgrifenedig neu lafar). | Byddwn yn darparu'r holl wybodaeth am ein seremonïau graddio a gwobrwyo yn ddwyieithog a bydd yr holl arwyddion a arddangosir gennym ar gyfer y seremonïau yn ddwyieithog. |
| 42 | | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn seremoni raddio neu wobrwyo, rhaid ichi—<br>(a) gofyn i bob person a wahoddwyd a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) os yw person (neu o leiaf un o'r personau hynny) wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y seremoni—<br>(i) darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, neu darparu cyfieithiad Saesneg ysgrifenedig yn y seremoni. | Bydd gwahoddiadau i bersonau siarad mewn seremoni raddio neu wobrwyo yn cynnwys cwestiwn sy'n gofyn a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth siarad. Os byddant am ddefnyddio'r Gymraeg mewn seremoni raddio byddwn yn darparu cyfieithiad Saesneg ysgrifenedig. Os byddant yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn seremoni wobrwyo byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg. |
| **Bydd Canllaw Staff yn cael ei gyhoeddi ar wefan Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol i gynorthwyo staff wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau.** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 43 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Cyhoeddiadau** | Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd neu at ddefnydd myfyrwyr yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg. | Bydd dogfennau a gynhyrchir at ddefnydd y cyhoedd neu at ddefnydd myfyrwyr yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. |
| 51 | | Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân o ddogfennau am resymau ymarferol, bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd. |
| 52 | | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. | Bydd dogfennau Cymraeg a Saesneg sy'n cael eu llunio ar wahân yn datgan bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg. |
| 53 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Ffurflenni** | Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr gael ei llunio yn Gymraeg. | Bydd ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd neu fyfyrwyr yng Nghymru yn ddwyieithog. |
| 53A | | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | Os bydd rhaid cyhoeddi ffurflenni ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd, ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob un yn cynnwys neges bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall hefyd. |
| 53B | | Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er | Bydd pob ffurflen i'w defnyddio gan y cyhoedd neu fyfyrwyr yn ddwyieithog fel rheol. Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni yr un fath yn y ddwy iaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen). | |
| 54 | | Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg. | Bydd gwybodaeth a gofnodwyd ymlaen llaw ar ffurflenni yn cael ei chofnodi yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>Ein harfer safonol fydd anfon ffurflenni yn newis iaith y myfyriwr neu'r aelod o'r cyhoedd. |
| 55[5] | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Y Wefan** | Rhaid ichi sicrhau—<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. | Byddwn yn gweithredu Strategaeth Gwefannau Dwyieithog sy'n sicrhau bod pob tudalen perthnasol ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| 58 | | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | Bydd pob tudalen ar ein gwefan yn rhoi opsiwn iaith i'r defnyddiwr sy'n cynnig dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg/Saesneg cyfatebol. |
| 59 | | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | Bydd y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen perthnasol o'n gwefan ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. |
| **Bydd Canllaw Staff yn cael ei gyhoeddi ar wefan Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol i gynorthwyo staff gyda chydymffurfio â'r Safonau perthnasol i'r wefan.** | | | |

[5] Gweler troednodyn 1.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 60 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Meddalwedd** | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar eich mewnrwyd i fyfyrwyr, eich gwefannau rhith-ddysgu a'ch gwefannau porth dysgu. | Bydd Cysgliad (sy'n cynnwys Cysill a Cysgair) ar gyfrifiaduron gweithfannau cyhoeddus y Brifysgol. |
| 61 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Apiau** | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | Bydd pob ap a gyhoeddir gan y Brifysgol yn ddwyieithog ac yn gweithredu'n Gymraeg yn unol â Strategaeth Gwefannau Dwyieithog y Brifysgol |
| 62[6] | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Cyfryngau Cymdeithasol** | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Bydd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (Facebook, YouTube, Instagram, Twitter) y Brifysgol yn ddwyieithog gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y fersiwn Cymraeg yn cael ei ddiweddaru yr un pryd â'r un Saesneg. Bydd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol adrannol y Brifysgol yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, un ai drwy gynnal dau fersiwn, un yn Gymraeg ac un yn Saesneg, neu drwy gael fersiwn hollol ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf, neu drwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal ond heb o reidrwydd gyfieithu popeth yn slafaidd.<br>Bydd staff sy'n defnyddio cyfrifon Twitter personol iddyn nhw yn gwneud hynny yn eu hiaith ddewisol a bydd |

[6] Corfforaethol ac adrannol yn unig, dim pan fo staff yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel unigolion.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rhai o'n staff yn cynnal cyfrifon Cymraeg yn unig. |
| 63 | | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | Ein harfer yw ymateb yn yr iaith y derbynnir y neges. |
| 64 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Peiriannau Hunanwasanaeth** | Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw. | Bydd ein holl beiriannu hunanwasanaeth (heblaw'r rhai a weithredir gan gwmni allanol) yn gwbl weithredol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn achos gosod peiriannau o'r newydd gan gwmnïau allanol byddwn yn rhoi gwybod iddynt am bolisi iaith y Brifysgol fel rhan o'r broses dendro ac yn gofyn iddynt ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg. |
| 65 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Arwyddion (parhaol a dros dro)** | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a myfyrwyr yn ddwyieithog a bydd y testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd |
| 66 | | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | Ar ein holl arwyddion, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y Saesneg fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen gyntaf. |
| 67 | | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | Bydd testun ar arwyddion yn cael ei wirio gan ein cyfieithwyr mewnol ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfer cywirdeb o ran ystyr a mynegiant. |
| 68 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Derbynfeydd** | Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. | Byddwn yn croesawu ymholiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl ddesgiau derbynfa cyhoeddus. |
| 71 | | Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. | Arddangosir arwydd Cymraeg Gwaith yn ein holl derbynfeydd cyhoeddus sy'n dangos ein bod yn croesawu defnyddo'r Gymraeg. |
| 72 | | Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny. | Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo llinyn gwddf neu fathodyn i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg. |
| 73 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Hysbysiadau** | Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | Bydd ein holl hysbysiadau sy'n cael eu cyhoeddi neu eu harddangos yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg. Os byddant yn cael eu cyhoeddi ar wahân am resymau ymarferol, byddant o'r un maint ac amlygrwydd ac ar gael ar yr un pryd. |
| 74 | | Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | Pan fyddwn yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y testun Saesneg fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen gyntaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 75 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Grantiau** | Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. | Bydd yr holl ddeunyddiau cysylltiedig a gyhoeddir sy'n ymwneud â cheisiadau am grant i'w ddefnyddio gan y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, neu o'r un maint ac amlygrwydd ac ar gael ar yr un pryd os yn cael eu cynhyrchu ar wahân am resymau ymarferol. |
| 76 | | Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | Bydd yr holl wahoddiadau, dogfennau a ffurflenni yn datgan y croesewir ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a dderbynnir yn Saesneg. |
| 76A | | Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau). | Bydd dyddiadau cau ac amser targed ar gyfer derbyn ac ymateb i ymgeiswyr yr un fath ar gyfer ceisiadau Cymraeg a Saesneg. |
| 78 | | Os byddwch yn cael cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi—<br>(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a<br>(b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | Bydd ceisiadau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn Gymraeg a gofynnir i'r ymgeisydd a fyddant yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad gan gynnig a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg pan fydd angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 79 | | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg. | Bydd yr holl ohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn yr iaith honno. |
| 80[7] | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Contractau a ddyfernir i drydydd partion** | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | Bydd gwahoddiadau i dendro sydd y tu allan i Reoliadau Caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>Bydd ystyriaethau'n ymwneud â darparu gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys fel sy'n briodol mewn manylebau contract, a fydd yn cynnwys gofynion iaith yn ymwneud ag unrhyw agweddau penodol ar wasanaeth cyhoeddus a ddarperir ar ran y Brifysgol. |
| 81 | | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. | Bydd pob gwahoddiad i dendro am gontract yn datgan y croesewir tendrau yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflenni yr un fath ar gyfer y ddwy iaith. |
| 81A | | Rhaid ichi beidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau). | Bydd yr amserlen ar gyfer ymdrin â cheisiadau yr un fath ar gyfer y rhai a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

[7] At ddibenion Safon 80 (gwahoddiad i dendro) – 1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 – Rhan 3 Dehongli'r Safonau, paragraff 61, t.52).

| | | | |
|---|---|---|---|
| 83 | | Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi—<br>(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a<br>(b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | Bydd tendrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn y Gymraeg gan gynnwys yr angen i gyfweld y sawl sy'n tendro os oes angen. Byddwn yn cynnig ac yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad. |
| 84 | | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | Bydd tendrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn y Gymraeg, gan gynnwys unrhyw benderfyniad a wneir ynghylch y tendr. |
| **Bydd Canllaw Staff yn cael ei gyhoeddi ar wefan Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol i gynorthwyo staff gyda chontractau a thendro.** | | | |
| 85 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Hysbysebu a Hybu** | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg | Bydd yr holl hysbysebion yn hyrwyddo ein gwasanaethau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. |
| 86 | | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | Bydd yr holl gyhoeddusrwydd neu ddogfennau yr ydym yn eu cynhyrchu yn hysbysebu gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. |
| | **Cyflenwi Gwasanaethau** | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â | Mae gennym hunaniaeth gorfforaethol a delwedd gyhoeddus ddwyieithog. Bydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 87 | **Hunaniaeth Gorfforaethol** | thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr holl ddeunyddiau sy'n arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol. |
| 88[8] | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Cyfleoedd Dysgu** | Os byddwch yn cynnig cyfle dysgu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. | Bydd unrhyw gwrs addysg y byddwn yn ei gynnig i'r cyhoedd yn gwahodd y gynulleidfa i'n hysbysu am eu dewis iaith ar gyfer cymryd rhan yn y cwrs. |
| 90[9] | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Asesiadau** | Rhaid ichi hysbysu eich myfyrwyr y caniateir i unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi fel rhan o asesiad neu arholiad gael ei gyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd gwaith a gyflwynir ichi yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw. | Byddwn yn hysbysu ein myfyrwyr bod ganddynt yr hawl i gyflwyno gwaith ysgrifenedig a sefyll arholiadau yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg (ac eithrio modiwlau mewn ieithoedd lle asesir yr iaith). Byddwn yn eu hysbysu na fydd unrhyw waith a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol. |
| 90A[10] | | Rhaid ichi beidio â thrin unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw. | Ni fyddwn yn trin gwaith a gyflwynir yn Gymraeg ar fodiwl cyfrwng Saesneg yn llai ffafriol. Byddwn yn anelu at sicrhau bod y gwaith yn cael ei farcio yn Gymraeg ar bob achlysur posibl |

[8] At ddibenion safon 88….. ystyr "cyfleoedd dysgu" yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn flas neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys – a) unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn flas na darpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu fel rhan o gwrs; neu b) seminarau na chyflwyniadau llafar sy'n ymwneud â pherfformiad neu gynhyrchiad. (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 – Rhan 3 Dehongli'r Safonau, paragraff 63, t.53).

[9] Nid yw safonau 90 a 90A yn gymwys pan fydd y corff yn asesu hyfedredd myfyriwr mewn iaith ac eithrio'r Gymraeg. (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 – Rhan 3 Dehongli'r Safonau, paragraff 64, t.53).

[10] Gw. nodyn 7.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ond os na fydd hynny'n bosibl byddwn yn cyfieithu'r gwaith i'r Saesneg.. |
| 91 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Cyhoeddiad Cyhoeddus** | Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. | Bydd unrhyw gyhoeddiad sy'n cael ei wneud dros system annerch gyhoeddus yn cael ei wneud yn ddwyieithog gyda'r neges Gymraeg yn dod o flaen y Saesneg. |
| 92 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Llety Myfyrwyr** | Pan fydd myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr yn gwneud cais ichi am lety preswyl, rhaid ichi ganiatáu i'r myfyrwyr hynny fynegi dewis am lety (neu ran o lety) a gaiff ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg. | Wrth hysbysebu ein llety preswyl i'n myfyrwyr a darpar fyfyrwyr byddwn yn ei gwneud yn glir bod llety cyfrwng Cymraeg ar gael iddynt os ydynt yn dymuno. |
| 92A | | Rhaid ichi hybu ymhlith eich myfyrwyr a'ch darpar fyfyrwyr y gallu iddynt fynegi dewis am lety (neu ran o lety) a gaiff ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg. | Wrth hysbysebu ein llety preswyl i'n myfyrwyr a darpar fyfyrwyr byddwn yn ei gwneud yn glir bod llety cyfrwng Cymraeg ar gael iddynt os ydynt yn dymuno. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 93 | **Cyflenwi Gwasanaethau**<br><br>**Tiwtor Personol** | Os ydych yn dyrannu tiwtor personol i fyfyriwr ("A") rhaid ichi—<br>(a) gofyn i A a yw'n dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, a<br>(b) os yw A yn eich hysbysu ei fod yn dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg i A. | Wrth i fyfyrwyr newydd gofrestru gyda'r Brifysgol byddwn yn adnabod y siaradwyr Cymraeg ac yn darparu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg iddynt yn ddiofyn. Os nad oes modd cael tiwtor yn yr un adran â'r myfyriwr byddwn yn sicrhau bod tiwtor o'r un Gyfadran yn cael ei bennu iddynt. |
| | | **RHAN DAU** | |
| 94 | **Llunio Polisi**[11]<br><br>**Penderfyniadau Polisi** | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Wrth lunio polisi newydd neu ddiwygio penderfyniadau polisi a wnaed eisoes, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith i asesu'r effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'n ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:<br>• Gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i |

[11] Yn ôl Rhan 2 Dehongli'r Safonau mae "penderfyniad polisi" yn cynnwys penderfyniadau yn ymwneud â a) derbyn a dethol myfyrwyr; b) gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff; c) lles myfyrwyr; ch) cwynion; d) achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr; dd) gwasanaeth gyrfaoedd; e) mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu; f) seremonïau graddio a gwobrwyo; ff) asesu neu arholi myfyriwr; g) dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol; ng) darlithoedd cyhoeddus; h) cyfleoedd dysgu; i) cyrsiau; j) arwyddion ar adeiladau'r corff; l) llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau; ll) dyrannu tiwtor personol; m) galwadau i brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell gymorth, rhifau canolfan alwadau a systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio; ac mae'n cynnwys……. i) cynnwys deddfwriaeth; ii) arfer pwerau statudol; iii) cynnwys datganiadau polisi; iv) strategaethau neu gynlluniau strategol; v) strwythurau mewnol; vi) lleoliadau swyddfeydd ac adeiladau; vii) recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr. (t. 59-60, paragraff 2).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg |
| 95 | | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Wrth lunio polisi newydd neu ddiwygio penderfyniadau polisi a wnaed eisoes, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith i asesu sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effaith gadarnhaol neu effaith fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:<br>• Gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg . |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 96 | | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Wrth lunio polisi newydd neu ddiwygio penderfyniadau polisi a wnaed eisoes, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith i asesu sut na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effaith andwyol, neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:<br>• Gael dim effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 97 | **Llunio Polisi**<br><br>**Ymgynghori** | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar —<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am safbwyntiau ar yr effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:<br>• Gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn  llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 98 | | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar —<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am safbwyntiau ar yr effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:<br>• Gael effeithiau cadarnhaol neu mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn  llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 99 | | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar —<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am safbwyntiau ar yr effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:<br>• Gael dim effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 100 | **Llunio Polisi**<br><br>**Dyfarnu Grantiau/Cymorth Ariannol** | Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol—<br>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar—<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;<br>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;<br>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar —<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;<br>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich | Nid yw'r Brifysgol yn darparu grantiau ar hyn o bryd. Os byddwn yn dechrau dyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (heblaw am gymorth i fyfyrwyr unigol sydd eisoes yn cydymffurfio â'r Safonau) byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg ac yn llunio ac yn cyhoeddi polisi a fydd yn golygu ein bod yn ystyried sut y gallai dyfarnu'r grant gael:<br>• Effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Dim effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Sicrhad nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—<br>i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |
| 101 | **Llunio Polisi**<br><br>**Comisiynu Ymchwil** | Pan fyddwch yn comisiynu neu‘n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i‘ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu‘n rhai andwyol), y byddai‘r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio‘r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na‘r Saesneg. | Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil i’n cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi byddwn yn gofyn i’r ymchwilwyr ddefnyddio’r Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith er mwyn sicrhau y bydd yr ymchwil yn ystyried yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg o ran y cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac i sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg fel rhan o’r ymchwil. |
| 102 | | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil i’n cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi byddwn yn gofyn i’r ymchwilwyr ddefnyddio’r Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith er mwyn sicrhau y bydd yr ymchwil yn ystyried a oes modd cael effeithiau cadarnhaol neu mwy cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg o ran y cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac i sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. |
| 103 | | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr | Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil i’n cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi byddwn yn gofyn i’r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | ymchwilwyr ddefnyddio'r Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith er mwyn sicrhau y bydd yr ymchwil yn ystyried sut i beidio â chael effaith andwyol, neu sut i gael effaith llai andwyol ar yr iaith Gymraeg o ran y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 104 | **Llunio Polisi**<br><br>**Cyrsiau Academaidd** | Pan fyddwch yn datblygu neu'n addasu cwrs (neu unrhyw gydran o gwrs), rhaid ichi ystyried—<br>a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai'r cwrs hwnnw yn eu cael ar—<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;<br>(b) sut y byddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;<br>(c) sut na fyddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Wrth ddatblygu neu addasu cwrs byddwn yn sicrhau bod y cyrff perthnasol (e.e. y Bwrdd Academaidd, y Senedd a Chyngor y Brifysgol) yn ymwybodol bod angen ystyried effaith eu penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg. Rhoddir trefniadau ar waith yn y Cyfadrannau i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried. |
| | | **RHAN TRI** | |
| 105 | **Gweithredu** | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso | Byddwn yn gweithredu polisi iaith mewnol i annog defnydd o'r Gymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Defnyddio'r Gymraeg o Fewn y Sefydliad** | defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 105 ymhob amgylchiad, ac eithrio:<br>i) cyhoeddi'r polisi ar eich mewnrwyd | yn fewnol gan gynyddu'r cyfleoedd i'n staff weithio'n ddwyieithog. Bydd y polisi i'w weld ar ein gwefan a byddwn yn ei hyrwyddo ar draws y Brifysgol. |
| 106 | **Gweithredu**<br><br>**Cyflogaeth** | Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg. | Byddwn yn gofyn am ddewis iaith gohebiaeth unigolion wrth iddynt wneud cais am swydd. Wrth gynnig swydd iddynt byddwn yn cadarnhau ym mha iaith y dymunir y dogfennau cytundebol. |
| 107 | | Rhaid ichi—<br>(a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a<br>(b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg. | Byddwn yn gofyn am ddewis iaith gohebiaeth unigolion wrth iddynt wneud cais am swydd ac fe gofnodir y dewis hwnnw ar system cofnodion staff - PoblAber. Byddwn yn gohebu yn Gymraeg gydag unigolion sydd yn dymuno gohebiaeth yn Gymraeg. |
| 108 | | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | Mae gofynion hyfforddiant staff wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Cyfraniad Effeithiol y Brifysgol. Mae'r holl ddogfennau (gan gynnwys cyflwyniad Panopto) ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan. |
| 109 | | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | Mae amcanion perfformiad wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Cyfraniad Effeithiol y Brifysgol. Mae'r holl ddogfennau (gan gynnwys cyflwyniad Panopto) ar gael yn ddwyieithog ar ein |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwefan. |
| 110 | | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | Mae cynllun gyrfa wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Cyfraniad Effeithiol y Brifysgol. Mae'r holl ddogfennau (gan gynnwys cyflwyniad Panopto) ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan. |
| 111 | | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi—<br>a) gwyliau,<br>b) absenoldebau o'r gwaith, ac<br>c) oriau gwaith hyblyg,<br>yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg. | Mae'r drefn o gofnodi ac awdurdodi gwyliau, absenoldebau ac oriau gwaith yn digwydd o fewn y system cofnodion staff - PoblAber. Gellir defnyddio PoblAber yn Gymraeg neu yn Saesneg. |
| 112 | **Gweithredu**<br><br>**Polisïau Adnoddau Dynol** | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag ymddygiad yn y gweithle ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. |
| 113 | | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag iechyd a lles yn y gweithle ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. |
| 114 | | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn ymwneud â chyflogau a buddion yn y gweithle ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. |
| 115 | | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg | Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn ymwneud â rheoli perfformiad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 116 | | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. |
| 117 | | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag amodau gwaith ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. |
| 118 | | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn ymwneud â phatrymau gwaith ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. |
| 119 | **Gweithredu**<br><br>**Cwynion am/gan staff** | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff—<br>(a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg. | Mae'r ffurflen ar gyfer gwneud achwyniad ffurfiol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan. Mae gan staff yr hawl i ohebu gyda'r Brifysgol, gan gynnwys ymateb i unrhyw gŵyn, yn Gymraeg. |
| 119A | | Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff—<br>(a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg;<br>a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | Bydd ein gweithdrefn ar gyfer cwyno yn ffurfiol yn cynnwys cymal sy'n nodi bod hawl gan staff i wneud cwyn yn Gymraeg ac i ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano/amdani yn Gymraeg. Bydd y weithdrefn hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan. |
| 121 | | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi—<br>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;<br>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth | Wrth ofyn i aelod o staff i gyfarfod i drafod cwyn bydd y llythyr yn cynnwys cymal sy'n nodi bod modd defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod os dymunir ac eglurir y bydd cyfieithydd ar y pryd yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol;<br>ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | bresennol er mwyn galluogi hyn os bydd angen. |
| 122 | | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff—<br>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,<br>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn. | Pan fydd aelod o staff yn gwneud cwyn yn y Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg ac yn sicrhau bod pob gohebiaeth a chyfarfod dilynol yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg os bydd yn dymuno. |
| 123 | **Gweithredu**<br><br>**Disgyblu staff** | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol. | Mae gan staff yr hawl i ohebu gyda'r Brifysgol, gan gynnwys ymateb i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn proses disgyblu fewnol, yn Gymraeg. |
| 123A | | Rhaid ichi—<br>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a<br>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | Bydd ein gweithdrefn ar gyfer disgyblu staff yn cynnwys cymal sy'n nodi bod hawl gan staff ymateb i honiadau yn Gymraeg. |
| | | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i | Wrth wahodd aelod o staff i gyfarfod sy'n ymwneud ag achos disgyblu bydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 125 | | ymddygiad, rhaid ichi—<br>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a<br>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol;<br>ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | y llythyr yn cynnwys cymal sy'n nodi bod modd defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod os dymunir ac eglurir y bydd cyfieithydd ar y pryd yn bresennol er mwyn galluogi hyn os bydd angen. |
| 126 | | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff—<br>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu. | Bydd staff yn cael eu hysbysu am unrhyw benderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu yn eu hiaith ddewisol. |
| 127 | **Gweithredu**<br><br>**Sgiliau Iaith Staff** | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | Mae gan yr holl staff ddewis o ryngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron, ac mae pecynnau gwirio sillafu a gramadeg a geiriadur Cymraeg *Cysgliad/Cysill* ar gael i'r holl staff ar gais gan ein hadran Gwasanaethau Gwybodaeth. |
| 134 | | Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. | Byddwn yn casglu data am sgiliau iaith Gymraeg pawb sy'n gwneud cais am swydd a bydd hyn ar eu cofnod staff os cânt eu penodi. Byddwn yn anfon e-bost at bob aelod o staff yn gyson i'w |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hannog i lenwi'r blwch sgiliau iaith sydd ar eu cofnod staff. |
| 135 | **Gweithredu**<br><br>**Hyfforddiant i Staff** | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg—<br>(a) recriwtio a chyfweld;<br>(b) rheoli perfformiad;<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;<br>(ch) ymsefydlu;<br>(d) delio â'r cyhoedd; ac<br>(dd) iechyd a diogelwch. | Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig yn Gymraeg i staff ar<br>(a) recriwtio a chyfweld<br>(b) rheoli perfformiad<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu<br>(ch) ymsefydlu<br>(d) delio â'r cyhoedd<br>(dd) iechyd a diogelwch<br>os cynigir hyfforddiant o'r un fath yn Saesneg. |
| 136 | | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn—<br>(a) cyfarfodydd;<br>(b) cyfweliadau; ac<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu | Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig yn Gymraeg i staff ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn<br>(a) cyfarfodydd<br>(b) cyfweliadau<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu |
| 137 | | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant i staff sy'n darparu cyngor gyrfaoedd ar werth sgiliau yn y Gymraeg yn y sector cyflogaeth. | Byddwn yn sicrhau bod staff yr adran Gwasanaethau Gyrfaoedd yn ymwybodol o werth sgiliau yn y Gymraeg yn y sector cyflogaeth. |
| 138 | **Gweithredu**<br><br>**Hyfforddiant Iaith** | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith—<br>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a<br>(b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr | Caiff yr holl staff eu hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith. Bydd cwestiwn am hyn yn y ffurflen Cynllun Cyfraniad Effeithiol a lenwir gan staff yn flynyddol. Bydd gan staff yr hawl i wersi Cymraeg am ddim hyd at 60 awr y flwyddyn. Bydd cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg yn ystod oriau gwaith (e.e. gyda'r Cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymraeg Gwaith) yn unol ag anghenion busnes y Brifysgol |
| 139 | | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. | Caiff yr holl staff eu hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Bydd cwestiwn am hyn yn y ffurflen Cynllun Cyfraniad Effeithiol a lenwir gan staff yn flynyddol. Bydd gan staff yr hawl i wersi Cymraeg, gan gynnwys sesiynau gloywi iaith, am ddim hyd at 60 awr y flwyddyn |
| 140 | | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—<br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. | Byddwn yn datblygu cwrs a fydd yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, gofynion y Safonau Iaith ar gyfer y Brifysgol a sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |
| 141 | | Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | Bydd ein sesiynau cynefino staff newydd yn cynnwys cyflwyniad am le'r Gymraeg yn y Brifysgol a'r gymuned a goblygiadau gweithio mewn sefydliad sy'n cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg. |
| 142 | **Gweithredu**<br><br>**Llofnod a negeseuon e-bost, bathodynnau.** | Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. | Bydd ein siaradwyr Cymraeg yn defnyddio logo Cymraeg Gwaith a'n dysgwyr yn defnyddio logo Dysgu Cymraeg yn eu llofnod e-bost er mwyn dangos eu bod yn medru siarad neu yn dysgu'r iaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 143 | | Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost. | Bydd llofnod e-bost, gan gynnwys teitlau swyddi a manylion cyswllt, pob aelod o staff yn ddwyieithog. Bydd negeseuon 'allan o'r swyddfa' yr holl staff yn ddwyieithog hefyd. |
| 144 | | Rhaid ichi roi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny. | Byddwn yn dosbarthu bathodynnau a/neu gortyn gwddf gyda'r logo Cymraeg Gwaith i bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno gwisgo un (yn ychwanegol at staff derbynfeydd). Bydd bathodynnau a chortynnau gwddf gyda'r logo DYSGWR ar gael hefyd. |
| 144A | | Rhaid ichi hybu ymhlith aelodau'r staff wisgo bathodyn sy'n cyfleu bod aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg. | Byddwn yn annog staff sy'n medru siarad Cymraeg i wisgo bathodyn/cortyn gwddf, mewn cyflwyniadau cynefino staff newydd, cyflwyniadau am y Safonau ac ar gyfer diwrnod Shwmae Sumae. |
| 145 | **Gweithredu**<br><br>**Swyddi** | Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | Byddwn yn asesu pob swydd ar gyfer gofynion iaith drwy system E-Recruiter gan gadw mewn cof ofynion y swydd dan sylw a'r capasiti o ran siaradwyr Cymraeg yn y tîm. Bydd yr asesiad yn cael ei wirio gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Bydd lefel a gofyniad iaith y swydd yn cael ei nodi'n eglur yn y disgrifiad swydd gyda disgrifiad o'r lefel fel y gall ymgeiswyr hunan-asesu eu lefel iaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 145A | | Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—<br>a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a<br>b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. | Bydd pob swydd sydd â gofyniad iaith hanfodol neu ddymunol neu bod angen dysgu Cymraeg yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg. Bydd yr hysbyseb yn datgan bod y Gymraeg yn hanfodol neu yn ddymunol. |
| 146 | | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | Bydd ein gwefan sy'n hysbysebu swyddi yn cynnwys y datganiad :-<br>*Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd pob cais a gyflwynir yn cael eu trin yn gyfartal.*<br><br>Bydd pob hysbyseb swydd yn cynnwys y datganiad :-<br>*Sefydliad Dwyieithog sy'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg ac sy'n ymroddedig i Gyfle Cyfartal. Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd pob cais a gyflwynir yn cael eu trin yn gyfartal.* |
| 146A | | Os byddwch yn cyhoeddi—<br>(a) ffurflenni cais am swyddi;<br>(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeision am swyddi<br>(c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;<br>(ch) swydd-ddisgrifiadau;<br>rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid | Defnyddir system electronig E-Recruiter i ymgeisio am swyddi ac mae'r system yn gwbl ddwyieithog. I gychwyn bydd yr ymgeisydd yn dewis ym mha iaith y mae am ddefnyddio'r system ac yna bydd yr holl broses, gan gynnwys y ffurflen gais, esboniadau a gwybodaeth, yn ei ddewis iaith. Bydd pob swydd ddisgrifiad yn ddwyieithog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt. | |
| 146B | | Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau.) | Bydd ceisiadau a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael sylw yn ôl yr un amserlen. Os bydd angen cyfieithu cais i'r Saesneg bydd y cais hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r panel tynnu rhestr fer yr un pryd â'r ceisiadau a wnaethpwyd yn Saesneg yn wreiddiol. |
| 148 | | Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi –<br>a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, a<br>(b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen;<br>ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw) | Bydd ein ffurflen gais yn gofyn i bob ymgeisydd am swydd pa un yw eu dewis iaith ar gyfer cyfweliad. Bydd y ffurflen hefyd yn datgan :-<br>*Cewch ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyfweliad ac os bydd angen fe ddefnyddir cyfieithydd ar y pryd.*<br><br>Byddwn yn darparu cyfieithydd ar y pryd pan fydd angen mewn cyfweliadau lle mae'r ymgeisydd am ddefnyddio'r Gymraeg. |
| 149 | | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. | Byddwn yn gohebu ag ymgeiswyr yn eu hiaith ddewisol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 150 | **Gweithredu**<br><br>**Arwyddion** | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol sydd yn y gweithle yn ddwyieithog a bydd y testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd. |
| 151 | | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | Ar ein holl arwyddion, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y Saesneg fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen gyntaf. |
| 152 | | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | Bydd testun ar arwyddion yn cael ei wirio gan ein cyfieithwyr mewnol ar gyfer cywirdeb o ran ystyr a mynegiant. |
| 153 | | Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. | Bydd unrhyw gyhoeddiad sy'n cael ei wneud dros offer sain ein gweithle yn cael ei wneud yn ddwyieithog gyda'r neges Gymraeg yn dod o flaen y Saesneg. |
| | | **RHAN PEDWAR** | |
| | **Cadw Cofnodion** | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn | Cedwir cofnod o'r holl gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg a dderbynnir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 154 | **Cwynion** | eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau | gan y sefydliad ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r cofnod yn cynnwys natur y gŵyn a pha gamau yr ydym yn eu cymryd mewn ymateb. |
| 155 | | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy | Cedwir cofnodion a chopïau o gwynion ysgrifenedig a dderbynnir sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn ganolog gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. |
| 156 | | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). | Cedwir yr holl gwynion ysgrifenedig a dderbynnir sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ganolog gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. |
| 157 | **Cadw Cofnodion**<br><br>**Polisïau** | Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | Byddwn yn cadw copïau o'r Asesiadau Ardrawiad Iaith a lenwyd wrth lunio neu ddiwygio polisi. |
| 158 | **Cadw Cofnodion**<br><br>**Sgiliau Iaith Staff** | Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 134), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. | Byddwn yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg ein cyflogeion gan eu cyfri ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. |
| 159 | **Cadw Cofnodion**<br><br>**Hyfforddiant Staff** | Rhaid ichi gadw cofnod ar gyfer<br>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 135), a | Bydd cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar:<br>(a) nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 135, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs | (b) canran y staff a fynychodd gyrsiau a ddarparwyd yn Gymraeg. |
| 161 | **Cadw Cofnodion**<br><br>**Swyddi** | Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 145) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag. | Cedwir cofnod o'r holl asesiadau a gynhaliwyd i nodi lefel Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd a gwag ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys gallu iaith yr ymgeisydd llwyddiannus. |
| 162 | | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 145) fel swyddi sy'n gofyn<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol | Bydd cofnod o'r lefel sgiliau Cymraeg a'r gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd newydd neu wag yn cael ei gadw ar gyfer pob blwyddyn ariannol. |
| | | **RHAN PUMP** | |
| 163 | **Atodol – Cyflenwi Gwasanaeth**<br><br>**Dogfen Safonau'r Gymraeg** | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael-<br>(a) ar eich gwefan a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | Mae gennym ddogfen Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu pa Safonau Cyflenwi Gwasanaethau y mae'n ddyletswydd ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â nhw (sef rhan gyntaf y ddogfen hon sy'n ymwneud â'r Safonau Cyflenwi). Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 164 | **Atodol – Cyflenwi Gwasanaeth**<br><br>**Gweithdrefn Gwyno** | Rhaid ichi—<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | Mae gennym weithdrefn ar waith i ymdrin â'r holl gwynion a dderbynnir gan y sefydliad ynghylch cydymffurfio a'r Safonau a chwynion ynglŷn â'r Gymraeg. Ymdrinnir â'r holl gwynion a dderbynnir yn unol â'r weithdrefn hon, a gyhoeddir ar ein gwefan ac sydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais. |
| 165 | **Atodol – Cyflenwi Gwasanaeth**<br><br>**Monitro** | Rhaid ichi-<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—<br>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a<br>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | Byddwn yn monitro cynnydd o ran gweithredu yn erbyn targedau mewn Cynllun Gweithredu Blynyddol. Bydd adroddiad blynyddol ar weithrediad y Safonau yn cael ei gyflwyno i Grŵp Gweithredol y Gymraeg, Tîm Gweithredol y Brifysgol, ac i Gyngor y Brifysgol. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn cadw cofnod cyfredol ac addas o wybodaeth yn ymwneud â gweithrediad y Safonau, gan ein galluogi i fonitro ac adrodd ar y Safonau. |
| 166 | **Atodol – Cyflenwi Gwasanaeth**<br><br>**Adroddiad Blynyddol** | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. | Bob blwyddyn, byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol a fydd yn cynnwys sut y mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.<br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | yn unol â'r amserlen sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg.<br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |
| 167 | **Atodol – Cyflenwi Gwasanaeth**<br><br>**Dogfen Cydymffurfio** | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | Mae gennym ddogfen Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu sut y bydd Prifysgol Aberystwyth yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw (sef rhan gyntaf y ddogfen hon sy'n ymwneud â'r Safonau Cyflenwi).<br>Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |
| 168 | **Atodol – Cyflenwi Gwasanaeth**<br><br>**Darparu Gwybodaeth** | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth ar gais i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae'n ddyletswydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. |
| 169 | **Atodol – Llunio Polisi**<br><br>**Dogfen Safonau Iaith** | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael-<br>(a) ar eich gwefan a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd | Mae gennym ddogfen Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu pa Safonau Llunio Polisi y mae'n ddyletswydd ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â nhw (sef ail ran y ddogfen hon sy'n ymwneud â'r Safonau Llunio Polisi). Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |
| 170 | **Atodol – Llunio Polisi**<br><br>**Gweithdrefn Gwyno** | Rhaid ichi—<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | Mae gennym weithdrefn ar waith i ymdrin â'r holl gwynion a dderbynnir gan y sefydliad ynghylch cydymffurfio a'r Safonau a chwynion ynglŷn â'r Gymraeg. Ymdrinnir â'r holl gwynion a dderbynnir yn unol â'r weithdrefn hon, a gyhoeddir ar ein gwefan ac sydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais. |
| 171 | **Atodol – Llunio Polisi**<br><br>**Monitro** | Rhaid ichi-<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym | Byddwn yn monitro cynnydd o ran gweithredu yn erbyn targedau mewn Cynllun Gweithredu Blynyddol. Bydd adroddiad blynyddol ar weithrediad y Safonau yn cael ei gyflwyno i Grŵp Gweithredol y Gymraeg, Tîm Gweithredol y Brifysgol, ac i Gyngor y Brifysgol. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | ein gwefan. Byddwn yn cynnal cofnod cyfredol ac addas o wybodaeth yn ymwneud â gweithrediad y Safonau, gan ein galluogi i fonitro ac adrodd ar y Safonau. |
| 172 | **Atodol – Llunio Polisi**<br><br>**Adroddiad Blynyddol** | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi<br>yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | Bob blwyddyn, byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol a fydd yn cynnwys sut y mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi.<br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r amserlen sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg.<br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais. |
| 173 | **Atodol – Llunio Polisi**<br><br>**Dogfen Cydymffurfio** | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio a'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | Mae gennym ddogfen Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu sut y bydd Prifysgol Aberystwyth yn cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi y mae'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw (sef ail ran y ddogfen hon sy'n ymwneud a'r Safonau Llunio Polisi). Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |
| 174 | **Atodol – Llunio Polisi**<br><br>**Darparu Gwybodaeth** | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth ar gais i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. |
| 175 | **Atodol – Gweithredu**<br><br>**Dogfen Safonau Iaith** | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael-<br>(a) ar eich gwefan a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | Mae gennym ddogfen Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu pa Safonau Gweithredu y mae'n ddyletswydd ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â nhw (sef trydedd rhan y ddogfen hon). Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |
| 176 | **Atodol – Gweithredu**<br><br>**Gweithdrefn Gwyno** | Rhaid ichi—<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd. | Mae gennym weithdrefn ar waith i ymdrin â'r holl gwynion a dderbynnir gan y sefydliad ynghylch cydymffurfio a'r Safonau a chwynion ynglŷn â'r Gymraeg. Ymdrinnir â'r holl gwynion a dderbynnir yn unol â'r weithdrefn hon, a gyhoeddir ar ein gwefan ac sydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rhaid cydymffurfio â safon 176 ymhob amgylchiad, ac eithrio:<br>i) cyhoeddi'r ddogfen ar eich mewnrwyd | |
| 177 | **Atodol – Gweithredu**<br><br>**Monitro** | Rhaid ichi-<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer-<br>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a<br>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 177 ymhob amgylchiad, ac eithrio:<br>i) cyhoeddi'r ddogfen ar eich mewnrwyd | Byddwn yn monitro cynnydd o ran gweithredu yn erbyn targedau mewn Cynllun Gweithredu Blynyddol. Bydd adroddiad blynyddol ar weithrediad y Safonau yn cael ei gyflwyno i Grŵp Gweithredol y Gymraeg, Tîm Gweithredol y Brifysgol, ac i Gyngor y Brifysgol. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn cynnal cofnod cyfredol ac addas o wybodaeth yn ymwneud â gweithrediad y Safonau, gan ein galluogi i fonitro ac adrodd ar y Safonau |
| 178 | **Atodol – Gweithredu**<br><br>**Adroddiad Blynyddol** | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—<br>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 158); | Byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol a fydd yn cynnwys sut y mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r amserlen sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg.<br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159);<br>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159);<br>(ch) nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 160);<br>(d) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—<br>i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,<br>ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,<br>iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu<br>iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol,<br>(ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 162);<br>(dd) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adroddiad blynyddol ar gael—<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 179 | **Atodol – Gweithredu**<br><br>**Dogfen Cydymffurfio** | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | Mae gennym ddogfen Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu sut y bydd Prifysgol Aberystwyth yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw (sef trydedd ran y ddogfen hon sy'n ymwneud â'r Safonau Gweithredu). Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |
| 180 | **Atodol – Gweithredu**<br><br>**Darparu Gwybodaeth** | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy | Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth ar gais i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. |
| 181 | **Atodol – Cadw Cofnodion**<br><br>**Dogfen Safonau'r Gymraeg** | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael-<br>(a) ar eich gwefan a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | Mae gennym ddogfen Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu pa Safonau Cadw Cofnodion y mae'n ddyletswydd ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â nhw (sef pedwaredd ran y ddogfen hon). Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | i’r cyhoedd a myfyrwyr ar gais. |
| 182 | **Atodol – Cadw Cofnodion**<br><br>**Darparu Gwybodaeth** | Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â’r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny. | Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth ar gais i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaeth â’r safonau cadw cofnodion y mae’n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. |